# Strategaeth Heneiddo'n Dda Caerdydd

# 2022 - 2027







UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD

# Cynnys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Trosolwg o anghenion iechyd Caerdydd | 4 |
| Cefndir | 5 |
| Cefndir Strategol | 6 |
| Ymgynghoriad | 7 |
| Gweledigaeth, Egwyddorion a Nodau Allweddol | 8 |
| Cefnogi pobl hŷn i gadw'n heini a chysylltu mewn dinas sy'n dda i bobl hŷn | 9 |
| Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref drwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau | 14 |
| Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel | 25 |
| Cefnogi gofalwyr anffurfiol a gwerthfawrogi eu rôl | 30 |
| Sicrhau bod ein gwasanaethau'n bodloni anghenion y rhai mwyaf ag-ored i niwed | 31 |
| Moderneiddio ein Gwasanaethau'n Rhagweithiol | 33 |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 34 |
| Gweithredu, Monitro ac Adolygu | 36 |

# Rhagair



## Y Cynghorydd Susan Elsmore

### yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant

Rwy'n falch iawn o gyflwyno Strategaeth Heneiddio'n Dda Cyngor Caerdydd.

Nid oes amser pwysicach i edrych i'r dyfodol, ac i ystyried y ffordd orau o gefnogi pobl hŷn i fyw bywydau iach a bodlon yn eu cymunedau.

Mae gwrando ar lais unigolion wrth wraidd y strategaeth: dylai ein gwasanaethau rymuso pobl hŷn i fyw bywyd fel yr hoffent, gan roi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir i helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth ac i gyflawni'r canlyniadau a ddewiswyd ganddynt.

Mae'r pandemig yn parhau i roi pwysau enfawr ar y system iechyd a gofal cymdeithasol. Yn fwy diweddar, mae'r cynnydd yn y galw a ddilynodd y cyfnod clo yn profi'r system i'r eithaf, gan dynnu sylw at yr angen dybryd am newid. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â’r gwaith hwn.

Ni fu erioed yn gliriach pa mor bwysig yw'r partneriaethau rhwng y Cyngor, y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector a darparwyr gofal annibynnol. Mae'r pandemig wedi dod â ni'n agosach at ein gilydd ac wedi annog ffyrdd newydd o weithio.  Fel yr Aelod Cabinet a Chadeirydd Partneriaeth Heneiddio'n Dda y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, rwyf am fynd â'r dysgu hwn i'r dyfodol wrth i ni ddatblygu gwasanaethau sy'n wirioneddol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n gydgysylltiedig.  Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y bydd Cyngor Caerdydd yn chwarae ei ran i alluogi ei ddinasyddion i heneiddio'n dda.

Yn olaf, hoffwn achub ar y cyfle i ganmol a mynegi fy niolchgarwch i'r gweithlu gofal cymdeithasol, sydd wedi parhau i ddarparu gwasanaethau o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Diolch hefyd i ofalwyr, y rhai sy’n cael eu talu a’r rhai di-dâl, sydd wedi darparu gofal hanfodol i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed drwy gydol y pandemig.



Y Cynghorydd Susan Elsmore

# Trosolwg o Anghenion Iechyd Caerdydd

Mae anghenion iechyd y ddinas yn newid wrth i'r boblogaeth heneiddio. Mae Covid-19 hefyd wedi effeithio ar iechyd ein dinasyddion fel y gwelwyd yng nghanfyddiadau newydd Asesiad Anghenion Poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg. Wrth i anghenion newid, bydd y galw am wasanaethau'n newid hefyd.

## Anghenion Iechyd Cyfredol

Disgwyliad Oes Gwrywaidd **78**

Disgwyliad Oes Benywaidd **83**

Tua **Un** oedolyn o bob **Deg** yn darparu gofal anffurfiol

**Un** oedolyn o bob **Deg** yn colli eu clyw

Mae **132** o dderbyniadau i'r ysbyty bob blwyddyn oherwydd cwympiadau

Mae **3,819** o bobl â dementia. Mae gan **Ddwy Ran o Dair** ddementia difrifol

Mae gan **20%** o'r boblogaeth anhawster iechyd meddwl

## Canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o Asesiad Anghenion y Boblogaeth

Mae Asesiad Anghenion Poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg wrthi'n cael ei gwblhau. Fodd bynnag, tynnodd y ddogfen ddrafft sylw at y canlynol:

- Mae cyflyrau symudedd a chylchredol pobl hŷn wedi dirywio oherwydd cyfyngiadau symud Covid-19. Mae symudedd sy'n dirywio yn cynyddu'r risg o gwympiadau.
- Mae unigedd ac ynysigrwydd wedi cynyddu. Mae angen cymorth ar rai a fu'n hunangynhaliol erbyn hyn oherwydd llai o wydnwch.
- Mae'r rhaniad digidol wedi cynyddu gyda mwy o wasanaethau'n symud ar-lein yn unig.
- Clefyd Alzheimer a dementia oedd y cyflyrau mwyaf cyffredin a oedd yn bodoli eisoes ar gyfer pobl a fu farw o Covid-19.

## Poblogaeth Sy'n Heneiddio:

Mae'r boblogaeth yng Nghaerdydd yn heneiddio, fel y mae ledled Cymru. Mae'r cynnydd mewn disgwyliad oes yn newid cadarnhaol, ac mae'n amlwg bod pobl hŷn yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau lleol mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy waith cyflogedig a di-dâl a thrwy ofalu am eraill.

Fodd bynnag, mae nifer y bobl hŷn sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau ac yn arbennig byw gyda dementia hefyd yn cynyddu. Gallai hyn arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau.


### Cynnydd Deng Mlynedd yn y Boblogaeth a Ragamcennir



**17.8 %** o gynnydd 65+ oed

**9.2 %** o gynnydd 85+ oed

**5.9 %** o gynnydd 90+ oed




Bydd y nifer sy'n cael trafferth gyda gweithgareddau bywyd bob dydd yn cynyddu gan 17% erbyn 2030 - 1 o bob 4 person hŷn (dros 65 oed).

Bydd nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yn cynyddu 30.1% erbyn 2030 a 41.1% ar gyfer dementia difrifol. Bydd Cyngor Caerdydd yn gwario mwy na £50 miliwn ar wasanaethau gofal a chymorth i bobl hŷn yn 2021/22. Gallai'r ffigur hwn fwy na dyblu yn y 10 mlynedd nesaf oherwydd y cynnydd mewn dementia difrifol yn unig

Fodd bynnag, ni fydd y twf demograffig hwn o reidrwydd yn troi'n fwy o alw am ofal preswyl a gofal cartref.  Gall penderfyniadau polisi a chamau gweithredu a gymerwn nawr i helpu pobl i aros yn annibynnol gartref atal galw anghynaliadwy am wasanaethau a gwella canlyniadau i bobl hŷn.

Mae'r **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** yn dwyn ynghyd bartneriaid statudol, trydydd sector a'r sector annibynnol i wella canlyniadau i'n dinasyddion. Trefnir nifer o raglenni gwaith gan y BPRh, gan gynnwys y bartneriaeth Heneiddio'n Dda. Drwy gydlynu gwaith yr holl bartneriaid gallwn gyflawni mwy gyda'n gilydd nag y gallwn ar ein pen ein hunain.

*Cardiff & Vale of Glamorgan*
INTEGRATED HEALTH & SOCIAL CARE PARTNERSHIP
PARTNERIAETH IECHYD & GOFAL CYMDEITHASOL INTEGREDIG
*Caerdydd & Bro Morgannwg*

Mae'r strategaeth hon yn nodi ein **Cynllun 5 mlynedd** ar gyfer cefnogi pobl hŷn i heneiddio'n dda. Fel cyngor, ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain – mae'r strategaeth yn nodi sut y byddwn yn cydweithio â phartneriaid yn y Bwrdd Iechyd, y Trydydd Sector a'r Sector Annibynnol i gefnogi pobl hŷn.

## Cefndir Strategol


Wrth ddatblygu'r Strategaeth, rhoddwyd ystyriaeth i nifer o ddogfennau polisi deddfwriaethol, cenedlaethol a lleol.

Mae themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg drwy'r dogfennau hyn yn cefnogi'r angen i gynnal annibyniaeth a phwysleisio pwysigrwydd atal ac ymyrryd yn gynnar a chael y cymorth cywir ar waith i bobl hŷn allu aros gartref yn eu cymuned.

### Deddfwriaeth Allweddol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015








### Strategaethau Cenedlaethol Allweddol

Creu Cymru o Gyfleoedd i'r Henoed gan Age Cymru

Cymru Iachach Llywodraeth Cymru: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol


Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: Gwneud Cymru'n genedl o gymunedau sy'n dda i bobl hŷn

Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru













### Strategaethau Lleol Allweddol

Cynllun Llesiant Caerdydd 2018-2022

Uchelgais Prifddinas

Strategaeth Tai Pobl Hŷn Cyngor Caerdydd

Gwasanaethau Gofal a Chymorth Integredig Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Caerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer Pobl Hŷn 2017-2022

Strategaeth Llunio Ein Lles yn y Dyfodol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cynllun Ardal Caerdydd a'r Fro ar gyfer Anghenion Gofal a Chymorth 2018-2023

## Sesiynau Ymgysylltu

Fel rhan o waith drafftio'r strategaeth hon, ar ddechrau 2020, cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu gyda phartneriaid mewnol ac allanol.

Cynhaliwyd un sesiwn gydag uwch reolwyr yn y Gwasanaethau i Oedolion a chynhaliwyd sesiwn ar wahân gyda phartneriaid allanol yn Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Caerdydd. Cymerodd mynychwyr o ddeg sefydliad trydydd sector gwahanol ran yn y digwyddiad.

Rhannwyd prif themâu arfaethedig y Strategaeth ac roeddent yn sail i drafodaethau. Darparwyd holiadur fel y gellid cael barn y defnyddwyr gwasanaeth hefyd. Mae'r dyfyniadau isod yn amlinellu rhai safbwyntiau am yr unigolion hynny sydd wedi cael cymorth gan y Gwasanaethau i Oedolion.

**“Gweithio gyda gwên, bod yn gyfeillgar a gwneud i bobl deimlo'n ddiogel, wedi eu gwerthfawrogi ac yr ymddiriedir ynddynt ”**

**“Darparu gwasanaeth ataliol nid gwasanaeth adweithiol ”**

**“Mae gen i bryderon am ofal a alluogir gan dechnoleg. Ni ddylai gymryd lle cyswllt dynol .”**

**“Mae fy llais unigol yn bwysig ”**

**“Defnyddiwch iaith glir nid iaith y gweithle i wneud yn siŵr fy mod yn deall pa gymorth sydd ar gael a sut byddwch yn fy helpu ”**

Daeth y themâu allweddol canlynol i'r amlwg o'r sesiynau sydd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu egwyddorion a nodau allweddol y Strategaeth.

**Atal**



**Yn canolbwyntio ar yr unigolyn**



**Gofal a alluogir gan dechnoleg**



**Cydweithio**



**Cymuned**



# Gweledigaeth, Egwyddorion a Nodau Allweddol

Mae Strategaeth Heneiddio'n Dda Caerdydd 2022 - 2027 yn nodi gweledigaeth gyffredinol ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn yng Nghaerdydd.  Yn cefnogi'r weledigaeth hon y mae nifer o egwyddorion a nodau allweddol sydd wedi'u datblygu o adolygiad o ddogfennau strategol, gwasanaethau cyfredol ac ymgynghori â phartneriaid a defnyddwyr gwasanaethau.  Ystyriwyd canfyddiadau a ddaeth o asesiad anghenion y boblogaeth, gan gynnwys barn dinasyddion.  Mae pob nod allweddol yn ffurfio adran o'r Strategaeth ac fe'u cefnogir gan ymrwymiadau "byddwn yn". Bydd yr egwyddorion a’r nodau allweddol hyn yn llunio ac yn llywio ein gwasanaeth dros y pum mlynedd nesaf.

## Ein Gweledigaeth

**Cefnogi pobl hŷn i fyw’n annibynnol yn eu cartrefi a’u cymunedau**

## Ein Hegwyddorion

- Bydd gan bobl hŷn Lais a Rheolaeth
- Byddwn yn cymryd ymagwedd sy'n seiliedig ar gryfderau
- · Byddwn yn cefnogi ac yn galluogi annibyniaeth
- · Byddwn yn darparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir
- Byddwn yn darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- Byddwn yn cydweithio â phartneriaid, y trydydd sector a dinasyddion
- Byddwn yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn hyrwyddo cydraddoldeb
- Byddwn yn sicrhau bod ein gweithlu gofal cymdeithasol wedi'i hyfforddi'n dda ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi


## Ein Prif Nodau

- Cefnogi pobl hŷn i gadw'n heini a chysylltu mewn dinas sy'n dda i bobl hŷn
- Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref drwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau
- Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel
- Cefnogi gofalwyr anffurfiol a gwerthfawrogi eu rôl
- Sicrhau bod ein gwasanaethau'n bodloni anghenion y rhai mwyaf agored i niwed
- Moderneiddio ein Gwasanaethau'n Rhagweithiol

# Cefnogi pobl hŷn i gadw'n heini a chysylltu mewn dinas sy'n dda i bobl hŷn

## Hybiau sy'n canolbwyntio ar Lesiant

Rydym am sicrhau bod yr holl bobl hŷn yng Nghaerdydd yn gallu manteisio ar y cyngor, y cymorth, y gweithgareddau a'r gwasanaethau cywir i'w helpu i gadw'n iach ac yn annibynnol. Wedi'u lleoli yng nghanol ein cymunedau ac yn dod ag ystod o wasanaethau at ei gilydd sy'n seiliedig ar anghenion lleol, mae ein Hybiau Cymunedol a'n Llyfrgelloedd mewn sefyllfa dda i helpu i fynd i'r afael â llawer o'r materion sy'n effeithio ar iechyd a lles




Mae'r Hybiau'n cefnogi'r agenda Byw'n Iach drwy ddarparu lleoliadau i bartneriaid gynnig ystod eang o weithgareddau corfforol, chwaraeon a chyfleoedd eraill i bobl hŷn gadw'n heini ochr yn ochr ag ystod o weithgareddau cymdeithasol i atal ynysigrwydd ac unigedd, i gyd mewn lleoliad cymunedol hamddenol.



Mae ein Llyfrgelloedd yng ngogledd y ddinas yn cael eu trawsnewid yn Hybiau – gan ganolbwyntio ar lesiant. Bydd y canolfannau hyn yn darparu cyngor iechyd a byw'n annibynnol, digwyddiadau cymdeithasol a grwpiau a gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau i gyd mewn man lleol.



## Gweithio cydgysylltiedig rhwng Canolfannau Dydd a Hybiau



Mae Cyngor Caerdydd yn gweithredu tair Canolfan Ddydd sy’n darparu gwasanaethau ar gyfer pobl hyn ag anghenion gofal a chymorth lefel uchel. Dros y blynyddoedd diwethaf mae gwaith adnewyddu wedi'i wneud gyda'r nod o ddarparu amgylchedd gofal dydd o ansawdd da i bobl hŷn sydd â **lefel uchel o anghenion gofal a chymorth** a lefel isel neu sefydlog o **Dementia**, gyda Chanolfan Ddydd Dementia fwy arbenigol yn Nhrelái yn cael ei darparu mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd.

Byddwn yn dod â dull partneriaeth yr hybiau i'r Canolfannau Dydd i bobl hŷn i ddarparu gweithgareddau, digwyddiadau a chyngor ychwanegol. Byddwn yn annog partneriaid i ddarparu gwasanaethau yn y Canolfannau Dydd ac yn annog mwy o wirfoddoli. Gall y Canolfannau Dydd gynorthwyo'r hybiau drwy sicrhau bod eu gweithgareddau'n hygyrch i bobl ag anghenion gofal a chymorth uwch.

## Gweithio cydgysylltiedig rhwng Iechyd a Hybiau

Mae gwaith ar y gweill i ymestyn ein Hyb Cymunedol Powerhouse i fod yr Hyb Iechyd a Llesiant cyntaf yng Nghaerdydd, gan gynnig meddygfa ac ystod eang o wasanaethau iechyd ochr yn ochr â'n darpariaeth hybiau arferol, gan gynnig hyd yn oed mwy o gyfleoedd i gefnogi pobl hŷn i gadw'n iach ac yn gysylltiedig.



*Hyb Iechyd a Llesiant yn cael ei ddatblygu yn Llanedern*

**Byddwn yn ymestyn cyfleoedd i bobl hŷn sydd ag anghenion gofal a chymorth i gadw mewn cysylltiad drwy:**

- Ddod â Gwasanaethau Hybiau Cymunedol a Chanolfannau Dydd at ei gilydd - cynyddu'r ystod o weithgareddau a ddarperir yn y Canolfannau Dydd, annog partneriaid i ddarparu gwasanaethau ac annog mwy o wirfoddoli.
- Datblygu dull Hybiau i Bawb—gallai hyn gynnwys:
  - Defnyddio gwybodaeth arbenigol y tîm Canolfannau Dydd i gynorthwyo'r hybiau i sicrhau bod eu gweithgareddau'n hygyrch i bobl ag anghenion gofal a chymorth uwch.
  - Sesiynau pwrpasol ar gyfer y rhai ag anghenion gofal a chymorth gyda staff cymorth / gofal ar gael.
  - Defnyddio'r dyddiau y mae rhai Hybiau ar gau a phenwythnosau yn y Canolfannau Dydd—i ymestyn y gwasanaethau sydd ar gael a darparu seibiant ychwanegol i ofalwyr.
  - Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu ein hybiau ymhellach i ddarparu Canolfannau Iechyd a Llesiant integredig.

## Dod yn Ddinas o Gyfleoedd i'r Henoed

Mae 'dinasoedd sy'n dda i bobl hŷn' yn gysyniad a ddatblygwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), sy'n canolbwyntio ar greu amgylcheddau sy'n meithrin dulliau o heneiddio'n iach ac yn heini, gan ei gwneud yn bosibl i bobl barhau i aros yn eu cartrefi, cymryd rhan yn y gweithgareddau y maent yn eu gwerthfawrogi, a chyfrannu at eu cymunedau gyhyd â phosibl.

Rydym wrthi'n gwneud cais i fod yn Ddinas sy'n Dda i Bobl Hŷn mewn cydweithrediad â phartneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Comisiynydd Pobl Hŷn. I wneud hyn, rydym wedi nodi cynllun gweithredu i Gaerdydd 'Weithio Tuag at Ddinas o Gyfleoedd i'r Henoed' . Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi nodi 8 maes i ddisgrifio dinasoedd o gyfleoedd i'r henoed ac mae'r meysydd hyn wedi cael eu defnyddio fel fframwaith ar gyfer datblygu'r cynllun. Mae ein cynllun yn cynnwys:

**Mannau awyr agored ac adeiladau cyhoeddus** - gan gynnwys a Strategaeth Toiledau i sicrhau darpariaeth ddigonol a gwell mynediad i doiledau cyhoeddus ledled y ddinas. Hyrwyddo dyluniad diogel ac ystyriol o oedran ar gyfer adeiladau a mannau

**Cymorth Cymunedol ac Iechyd –**darparu cymorth mewn ardal leol gan ddarparu rhwydwaith o gymorth yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn.

**Cyfathrebu a Gwybodaeth** - darparu mynediad at wybodaeth sy'n helpu pobl gyda'u lles.

**Cyfranogiad Cymdeithasol -** dod â phobl at ei gilydd drwy grwpiau cymdeithasol gan ddarparu cyfleoedd i gysylltu ag eraill.

**Parch a Chynhwysiant Cymdeithasol -** Dod â chenedlaethau at ei gilydd i hyrwyddo gwell dealltwriaeth a pharch a chyfrannu at adeiladu cymunedau mwy cydlynol.

**Tai** - gan gynnwys gweledigaeth Strategaeth Tai Pobl Hŷn Caerdydd i sicrhau'r canlyniadau tai gorau i bob person hŷn yng Nghaerdydd. Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r ddarpariaeth o dai gofal ychwanegol a'r cyflenwad o dai sy'n barod am ofal. Ynghyd ag ymrwymiad i ddarparu gwybodaeth a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

**Trafnidiaeth** - cefnogi gwelliannau a fydd yn hwyluso gwell mynediad. Sicrhau bod pob man yn ein dinas yn agored ac yn hygyrch i bawb a bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn cael eu cysylltu gan ein rhwydwaith trafnidiaeth.

**Cyfranogiad Dinesig a Chyflogaeth** - galluogi pobl hŷn i gael llais mewn materion sy'n effeithio arnynt. Mae gwasanaethau i mewn i waith yn rhoi cymorth i bobl hŷn gael gwaith.

**Mae cynllun gweithredu Dinas o Gyfleoedd i'r Henoed yn rhan bwysig o'n Strategaeth Heneiddio'n Dda**



# Cefnogi pobl hŷn i gadw'n heini a chysylltu mewn dinas sy'n dda i bobl hŷn

## Dod yn Ddinas sy'n Deall Demensia

Erbyn 2025 rhagwelir y bydd tua 7,000 o bobl yn byw gyda Dementia ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. Yn unol â blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd wedi ymrwymo i wneud Caerdydd yn Ddinas sy'n Deall Dementia. Byddwn yn parhau â'n gwaith fel Dinas sy'n Deall Dementia drwy:

- Barhau i ddarparu hyfforddiant Cyfeillion Dementia gofynnol ar draws yr Awdurdod â'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth lawn ymhlith staff y Cyngor.
- Llunio rhaglen ymgysylltu ag ysgolion i annog mwy o weithgareddau a digwyddiadau rhwng y cenedlaethau.
- Gweithio gyda gwirfoddolwyr a phartneriaid i annog busnesau i ddod i Ddeall Dementia.
- Sicrhau bod ystod eang o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yn y ddinas y gall pobl â Dementia a gofalwyr fanteisio arnynt.
- Hwyluso'r gwaith o ystyried Dylunio sy'n Deall Dementia wrth adnewyddu adeiladau'r cyngor ac adolygu ein hadeiladau cyhoeddus i wneud addasiadau sy'n cefnogi'r rhai sy'n byw gyda dementia i barhau i fod yn weithgar yn eu cymuned.

## Grwpiau Cymunedol a Gwirfoddoli

Mae ein partneriaid trydydd sector a grwpiau gwirfoddol yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi pobl hŷn a darparu cyfleoedd i bobl hŷn aros yn rhan o'u cymunedau drwy wirfoddoli. Mae porth gwirfoddoli Cyngor Caerdydd yn galluogi sefydliadau cymunedol i hysbysebu eu cyfleoedd oll mewn un lle. Gall y bobl hynny sydd am helpu edrych ar y cyfleoedd hyn gan wybod bod y sefydliadau hyn wedi'u fetio. Mae'r bartneriaeth **"Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd"**, a lansiwyd yn ystod y pandemig, daeth â phartneriaid a grwpiau gwirfoddol y trydydd sector at ei gilydd i gefnogi'r rhai sy'n ynysu. Bydd hyn yn cael ei ail-lansio i annog gwirfoddolwyr i gefnogi pobl hŷn yn y ddinas.

**Byddwn yn cefnogi pobl i gadw'n heini ac yn gysylltiedig ac i baratoi ar gyfer y dyfodol drwy:**

- Adolygu a chryfhau'r cyngor ar fyw'n annibynnol a lles a ddarperir yn yr Hybiau ar gyfer pobl hŷn a'u gofalwyr.
- Gweithio i fod yn Ddinas sy'n Dda i Bobl Hŷn dan fantell Sefydliad Iechyd y Byd - drwy gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Dinas sy'n dda i Bobl Hŷn.
- Parhau â'n gwaith tuag at Ddinas sy'n Deall Dementia.
- Cefnogi grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr i gefnogi pobl hŷn a gofalwyr.

# Cefnogi pobl hŷn i gadw'n heini a chysylltu mewn dinas sy'n dda i bobl hŷn

## Cadw mewn Cysylltiad

### Tîm Llesiant ac Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae ein Tîm Llesiant ac Ymgysylltu â'r Gymuned yn gweithio gyda phobl hŷn i nodi eu diddordebau ac i ddod o hyd i weithgareddau cymunedol addas, gan gynnwys digwyddiadau sy'n pontio'r cenedlaethau, i leihau ynysigrwydd cymdeithasol.
Mae ffocws cryf ar alluogi a dileu rhwystrau i gyfranogiad cymunedol, drwy ddod o hyd i atebion gyda'r defnyddiwr gwasanaeth.

### Aros yn Rhithwir – y Model Hybrid

Yn ystod y pandemig, datblygwyd gweithgareddau a digwyddiadau rhithwir gan y Cyngor a phartneriaid i sicrhau bod pobl hŷn a'r rhai mwyaf agored i niwed yn cael eu cefnogi drwy ddefnyddio atebion digidol fel ffordd o leihau unigedd cymdeithasol.

### Gwasanaethau Byw'n Annibynnol – Gwyliau Rhithwir

Mae'r gwyliau hyn wedi dod â gwasanaethau'r Cyngor a phartneriaid y trydydd sector at ei gilydd i gefnogi trigolion hŷn a mwy agored i niwed yng Nghaerdydd i barhau i fod yn iach, yn dda ac yn annibynnol yn ogystal â chael eu cynnwys yn ddigidol.
Er bod gweithgareddau wyneb yn wyneb yn bwysig i lawer o bobl hŷn, roedd digwyddiadau digidol hefyd yn boblogaidd, gan ganiatáu i lawer fynychu na allai fod wedi gwneud hynny'n bersonol.


Roedd Mrs L wedi ymddeol yn ddiweddar, nid oedd ei theulu'n byw'n agos ati ac roedd hi mewn perygl o gael ei hynysu'n gymdeithasol. Yn ystod y pandemig, gwaethygodd problemau iechyd Mrs L gan nad oedd yn gallu parhau i fod yn actif.

Mynychodd Mrs L Ŵyl Wanwyn rithwir 'Corff Heini, Meddwl Iach' ac fe'i cyfeiriwyd at Wasanaeth Cynhwysiant Digidol y Tîm Cyfleoedd Dydd.

Rhoddwyd pedomedr i Mrs L, i fonitro ei gweithgarwch. Mae'r pedomedr wedi dod yn arf ysgogol i gynyddu ei gweithgarwch a'i chamau.

Mae Mrs L bellach yn aelod o grŵp cerdded ar-lein. Mae hefyd yn mynychu grwpiau'n rheolaidd yn seiliedig ar ei hobïau, gan gynnwys y gymdeithas hanes leol, grŵp hel atgofion misol, gwau a sgwrsio, Tai-Chi a grŵp Ymwybyddiaeth Ofalgar.

Dywedodd Mrs L ei bod wedi mynd yn 'eithaf brawychus' pa mor segur y daeth yn ystod y cyfnod clo, ond yn ddiweddar dangosodd ei horiawr 6,000 o gamau mewn un diwrnod!






***Tablet Gifting Scheme***

**Byddwn yn cefnogi pobl i gadw'n heini ac i gadw cyswllt ac i baratoi ar gyfer y dyfodol drwy:**

- Ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau rhithwir a gweithgareddau wyneb yn wyneb drwy fodel hybrid o ymgysylltu â'r gymuned.
- Parhau i gefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein.

## Datblygu a chydgysylltu gwasanaethau i gefnogi pobl hŷn yn well


Mae gennym eisoes wasanaethau llwyddiannus iawn sy'n canolbwyntio ar annibyniaeth, ond rydym am wella'r rhain. Rydym am ymgorffori ymagwedd ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau, ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar draws y gwasanaeth gan sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol i fwrw ymlaen â hyn.   Ein gwasanaethau craidd yw:

### Tîm Therapi Galwedigaethol Cymunedol

Mae ein Tîm Therapi Galwedigaethol Cymunedol yn cynnig cymorth ymarferol i alluogi pobl i fyw mor annibynnol â phosib yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd. Drwy ddefnyddio cymhorthion ac addasiadau offer, maent yn helpu pobl i aros yn annibynnol gartref ac yn sicrhau bod pecynnau gofal yn "gywir".

### Gwasanaeth Byw'n Annibynnol

Mae ein Gwasanaeth Byw'n Annibynnol eisoes wedi datblygu amrywiaeth o wasanaethau ataliol llwyddiannus – gan weithio'n agos gyda gwasanaethau eraill y cyngor, y trydydd Sector, y Bwrdd Iechyd a grwpiau cymunedol sy'n cyd-gynhyrchu canlyniadau sy'n bwysig i ddinasyddion ac yn cefnogi annibyniaeth.




### Timau Gwaith Cymdeithasol

Ein **Timau Gwaith Cymdeithasol** wedi'u hyfforddi mewn ymarfer sy'n seiliedig ar gryfder drwy ddarparu hyfforddiant Cyfathrebu Cydweithredol. Mae hyn wedi cefnogi newid o ran model y gwaith cymdeithasol ledled y gwasanaeth.

Mae arfer sy'n seiliedig ar gryfderau bellach yn fwy amlwg yn yr holl waith a wnawn, gan ganolbwyntio o'r newydd ar ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n adeiladu ar asedau a chryfderau'r unigolyn ei hun.

Yn **2020/21** mewn **84%** o atgyfeiriadau newydd am gymorth, darparwyd cymorth gan y Gwasanaeth Byw'n Annibynnol heb atgyfeirio ymlaen at ofal cymdeithasol

Byddwn yn parhau i ddatblygu a chydgysylltu gwasanaethau i gefnogi pobl hŷn yn well

# Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref drwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau

## Cynyddu cyfranogiad Therapyddion Galwedigaethol

### Astudiaeth Achos



Mae Mrs J wedi datblygu dementia, yn ei chael hi'n anodd cerdded ac mae'n mynd yn ansad wrth sefyll. Yn ddiweddar, roedd ei phecyn gofal wedi cynyddu i ofal gan ddau, ond roedd gofalwyr yn dal i gael trafferth i'w chefnogi.

Er mwyn asesu'r problemau a godwyd gan ofalwyr, mynychodd Therapydd Galwedigaethol alwad bore i arsylwi'r anawsterau a gâi'r gofalwyr  Nodwyd bod angen teclyn codi i helpu i gael Mrs J allan o'r gwely a chwblhau tasgau gofal personol. Cyflwynwyd cyfarpar codi symudol i ddechrau ond nid oedd yn llwyddiannus felly cytunwyd i osod tracio nenfwd yn yr eiddo.

Mae Mrs J yn gallu aros gartref er gwaethaf ei lefel uchel o anghenion gofal a chymorth. Cadarnhaodd gŵr Mrs J a'r asiantaeth ofal fod gofalu am Mrs J bellach gymaint haws.

---

**Byddwn yn ymgorffori dulliau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau ar draws y gwasanaethau i helpu pobl i aros yn annibynnol gartref:**

Byddwn yn cynyddu cyfranogiad Therapyddion Galwedigaethol:

- Gwneud defnydd llawn o'u harbenigedd o ran offer ac addasiadau gydol ein gwasanaethau.
- Darparu brysbennu sy'n seiliedig ar gryfderau, gan alluogi atal a chynnig pecynnau gofal priodol.
- Darparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer gofalwyr anffurfiol.

Byddwn yn sicrhau bod ein gweithwyr cymdeithasol a staff allweddol eraill yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i ddarparu asesiadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ac sy'n seiliedig ar gryfderau - gan fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar asedau, sy'n canolbwyntio ar alluogi pobl i fyw'n annibynnol, yn eu cartrefi a'u cymunedau.

# Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref drwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau

## Pwynt Cyswllt Cyntaf



Mae'r Tîm Pwynt Cyswllt Cyntaf (PCC) yn dîm o swyddogion teleffoni aml-sgil sy’n bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer atgyfeiriadau newydd i'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol ac i Ofal Cymdeithasol.  Mae swyddogion yn gweithio mewn partneriaeth â'r cleient i'w cefnogi i nodi a dileu rhwystrau a allai fod yn eu hatal rhag cyrraedd eu nodau llesiant.

Maent yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth gwerthfawr i osgoi fod angen i bobl fynd i argyfwng drwy nodi "beth sy'n bwysig" iddynt, gan weithio mewn partneriaeth â thimau Gofal Cymdeithasol ar ddarparu gwybodaeth a chyngor wedi'u teilwra i ddod o hyd i atebion amgen.

## Pwynt Cyswllt Cyntaf - Tîm Gwaith Cymdeithasol

Mae'r Tîm Gwaith Cymdeithasol Pwynt Cyswllt Cyntaf yn sicrhau bod cymorth proffesiynol bob amser ar gael i gefnogi'r swyddogion cyswllt ac i adolygu a chynorthwyo achosion mwy cymhleth.

Rydym am wella mynediad i'n gwasanaethau ymhellach drwy adeiladu ar y llwyddiant a sicrhau bod pawb yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i aros yn annibynnol gartref. Byddwn yn gwneud hyn drwy wella ein gwasanaeth Pwynt Cyswllt Cyntaf ymhellach a chadarnhau hyn fel y llwybr i'n gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn.

**Byddwn yn cryfhau ac yn symleiddio gwasanaethau wrth ein drws ffrynt i gefnogi atal ac ailalluogi drwy:**

- Adeiladu ar ein Gwasanaeth Pwynt Cyswllt Cyntaf a chadarnhau hyn fel y llwybr unigol i'n holl wasanaethau ar gyfer pobl hŷn, lleihau dyblygu a sicrhau dull cyson o atal ac ailalluogi.
- Grymuso ein Gweithwyr Cymdeithasol a’n Swyddogion Cyswllt Byw'n Annibynnol a Llesiant i ragnodi addasiadau ac offer lefel isel.

**Byddwn yn gweithio tuag at ddull un drws ffrynt ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol.**

## Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref drwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau


### Gweithio yn yr Ardal Leol gan Gefnogi Ymagwedd "Gartref"

Mae gweithio mewn ardal leol yn darparu gofal a chymorth cydgysylltiedig mewn lle penodol, ar draws Iechyd, cyngor, gwasanaethau'r trydydd sector a rhwydweithiau cymunedol lleol. Mae'r model cymorth wedi'i gynllunio o amgylch y person a'i deulu/ rhwydwaith cymorth gyda chamau gweithredu wedi'u targedu i fodloni anghenion lleol.

Rydym yn cydweithio â phartneriaid o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar raglen Heneiddio'n Dda Gartref i ddarparu gofal a chymorth cydgysylltiedig ar draws y Bwrdd Iechyd, y cyngor, gwasanaethau'r trydydd sector a rhwydweithiau cymunedol.

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu timau amlddisgyblaethol integredig lleol a all fodloni anghenion y bobl yr ydym yn eu cefnogi ar y cyd yn well. Y nod yw diddymu'r ffiniau rhwng gwasanaethau fel bod pobl yn profi gofal a chymorth pan fydd ei angen arnynt, gan ganolbwyntio ar gadw pobl yn iach ac yn annibynnol.

Bydd yr ardaloedd yn adlewyrchu'r **chwe** chlwstwr meddygon teulu yng Nghaerdydd, ond bydd y gwasanaeth yn cael ei rannu i ddwy ardal leol, y **Gogledd-orllewin** a'r **De-ddwyrain.** Bydd y rhain yn cwmpasu tri chlwstwr fesul ardal.




Byddwn yn cydweithio â chydweithwyr iechyd drwy'r prosiect Gartref i ddatblygu **Timau Amlddisgyblaethol,** gan gynnwys ystod eang o wasanaethau cyngor ac iechyd:

- Sefydlu lleoliadau hygyrch yn y gymuned ar gyfer ein timau cydgysylltiedig sy'n eu galluogi i gyflawni blaenoriaethau a rennir.
- Darparu'r cymorth cywir ar yr adeg iawn yn y gymuned, gan ganolbwyntio ar aros gartref ac yn iach a hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty.
- Sicrhau bod cymorth ar gael yn lleol - pan fydd ei angen i gefnogi annibyniaeth ac atal argyfwng.
- Parhau i weithio gyda chlystyrau meddygon teulu i fodloni anghenion cyfannol dinasyddion.

# Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref drwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau

## Gwasanaeth Gofal Cartref

Mae'r Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC) yn wasanaeth ar y cyd a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chyngor Caerdydd.

Mae TAC yn cefnogi pobl i aros gartref neu ddychwelyd adref o'r ysbyty drwy wasanaethau iechyd a gofal a thrwy gymorth ailalluogi.

Mae'r Cyngor yn darparu Gwasanaeth Gofal Cartref fel rhan o'r TAC, gan ddarparu gofal personol y mae mawr ei angen, ond gan ganolbwyntio ar ailalluogi.

Byddwn yn archwilio'r cyfle i adeiladu ar ein gwasanaeth TAC integredig i ddarparu gwasanaeth ymateb cyflym cydgysylltiedig 24/7 i barhau i gadw pobl gartref.

Cardiff Community Resource Team

**Astudiaeth Achos TAC**

Cafodd Mrs B ei derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i fethiant y galon. Adferodd yn dda yn yr ysbyty ond nodwyd y gallai fod angen cymorth arni gyda golchi a gwisgo, yn ogystal â ffisiotherapi parhaus i symud ymlaen â'i symudedd.

Roedd Mrs B yn annibynnol iawn cyn iddi gael ei derbyn felly cafodd ei hatgyfeirio i TAC am gymorth ailalluogi. Cynhaliwyd sgwrs gyda Mrs B i ddeall beth oedd yn bwysig iddi, beth y gallai ei wneud a beth oedd ei nodau.

Roedd cael ei hannibyniaeth yn ôl a gallu cael mynediad i'r gymuned yn bwysig iawn i Mrs B felly rhoddwyd nifer o adnoddau ar waith i'w helpu. Trefnwyd larwm argyfwng drwy Teleofal a Phryd ar Glud, a hefyd mynediad i'r Clinig Cwympiadau. Roedd Ffisiotherapydd a Therapydd Galwedigaethol yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynllun gofal personol i gynorthwyo gyda phroblemau symudedd.

Cyfeiriwyd Mrs B at y Tîm Cyfleoedd Dydd i adennill ei hyder wrth gael mynediad at weithgareddau cymunedol.

**Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr iechyd i symud tuag at ddull mwy integredig o ymdrin â gwasanaethau adnoddau cymunedol.**

**Byddwn yn moderneiddio ein gwasanaethau gofal cartref er mwyn:**

- Darparu Gwasanaeth Ailalluogi llawn - uwchsgilio ein staff gofal presennol i fod yn swyddogion ailalluogi.
- Darparu Gwasanaeth Pontio am gyfnodau byr i sicrhau rhyddhau cyflym o'r ysbyty neu i gefnogi annibyniaeth barhaus.
- Creu llwybr gyrfa i'n gweithwyr gofal mewnol i helpu recriwtio a chadw staff.

**Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid iechyd i ddatblygu gwasanaeth ymateb cyflym 24/7 i gadw pobl gartref.**

# Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref drwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau

## Cefnogi Rhyddhau o'r Ysbyty

### Gweithwyr Cymdeithasol Ysbyty

Mae Gweithwyr Cymdeithasol Ysbyty wedi'u lleoli mewn ysbytai ledled Caerdydd a'r Fro. Eu nod yw hwyluso rhyddhau o'r ysbyty yn ddiogel ac yn amserol i'r cleifion hynny sydd ag anghenion cymwys am ofal a chymorth. Cynorthwyo'r rhai a fydd yn symud i leoliad cartref gofal, yn symud i leoliad iechyd neu'n dychwelyd i'w cartref eu hunain gyda gwasanaeth gofal.



### Y "Fyddin Binc"

Mae'r "Fyddin Binc" yn rhan o'n gwasanaeth Byw'n Annibynnol, mae'n gweithio yn wardiau'r ysbyty i gefnogi'r broses o drosglwyddo o'r ysbyty i'r cartref mewn partneriaeth ag Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector. Maent wrth law i ddarparu cymorth wedi'i deilwra sy'n bodloni anghenion yr unigolyn, gan ddarparu ymyriadau ataliol, cefnogi byw'n annibynnol a lleihau'r risg o aildderbyn i'r ysbyty.



### Therapydd Galwedigaethol Cymunedol

Roedd cynllun peilot diweddar o Therapydd Galwedigaethol Cymunedol yn gweithio ochr yn ochr â gwaith cymdeithasol yn yr ysbyty yn lleihau'r gofal cartref yr oedd ei angen ar unigolion ac yn atal mynediad i ofal preswyl.

**Byddwn yn cefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol ac yn ddiogel drwy:**

- Gael un pwynt cyswllt yn yr ysbyty sy'n cyd-fynd yn llwyr â'n model cymunedol, sy'n seiliedig ar gryfderau. Er mwyn sicrhau rhyddhau o'r ysbyty'n ddiogel ac yn amserol, dilyn egwyddorion Gartref Gyntaf a grymuso annibyniaeth.
- Ymgorffori sgiliau ein Therapyddion Galwedigaethol Cymunedol yn yr ysbyty, datblygu proses brysbennu well, i gefnogi annibyniaeth.
- Mireinio a symleiddio'r model Rhyddhau i Adfer ac Asesu – asesu anghenion gofal yng nghartrefi pobl ac nid yr ysbyty.

# Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref drwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau

## Gwella'r Defnydd o Dechnoleg

Mae Teleofal neu Ofal a Alluogir gan Dechnoleg (TEC) yn defnyddio cyfuniad o larymau, synwyryddion ac offer arall i helpu pobl i fyw'n annibynnol.

Mae ymchwil o bob rhan o'r byd yn dangos y gellir ymestyn byw'n annibynnol pan anogir pobl hŷn (75+ oed) i ddefnyddio Teleofal. Mae **4,419** o bobl dros **75** oed yn defnyddio ein gwasanaethau Teleofal ar hyn o bryd, er bod hyn yn cyfateb i **71%** o bob defnyddiwr Teleofal, mae'n cyfateb i ddim ond **18%** o'r boblogaeth 75+ yn y ddinas.

Rydym am annog mwy o ddefnydd o dechnoleg, gan gynnwys technoleg prif ffrwd fel dyfeisiau sy'n cael eu actifadu gan lais, i helpu mwy o bobl i aros yn annibynnol am fwy o amser.  Ni fydd technoleg yn disodli'r angen am gyswllt dynol, ond gall fod yn arf pwysig ochr yn ochr â chymorth arall i helpu pobl i aros gartref.

### Ffocws ar Deleofal

Telecare Cardiff
Response and Warden Service

Yn 2020/21, cymerwyd 230,763 o alwadau.

Ymwelodd wardeiniaid symudol Teleofal â **3614** o bobl **a oedd wedi cwympo**, a arweiniodd at arbed **£703,154** i Wasanaeth Ambiwlans Cymru yn ystod y flwyddyn.



Cynhaliwyd y ddarpariaeth drwy gydol y pandemig.

**Byddwn yn gwella'r defnydd o dechnoleg, cymhorthion ac addasiadau i gefnogi annibyniaeth drwy:**

- Ddatblygu Strategaeth Dechnoleg Caerdydd arloesol yn seiliedig ar yr arfer gorau o bob rhan o'r byd a darparu cymorth technoleg i ymgorffori hyn, gan sicrhau bod ein holl staff yn cael eu hyfforddi i wneud atgyfeiriadau priodol.
- Cyflwyno "offeryn canfod technoleg" ar gyfer staff a dinasyddion , a fydd yn grymuso ein dinasyddion i wneud eu dewisiadau a phrynu i'w hunain yn ogystal â bod yn offeryn cymorth ar gyfer asesiadau gan ein staff.

# Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref drwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau

## Gwella'r Defnydd o Gymhorthion ac Addasiadau

Mae cymhorthion, offer ac addasiadau yn gwella symudiad a mynediad o amgylch y tŷ a gallant chwarae rhan bwysig o ran cadw pobl hŷn yn annibynnol am fwy o amser.

### Tîm Cyfleusterau Pobl Anabl

Mae'r Tîm Cyfleusterau Pobl Anabl yn darparu amrywiaeth o addasiadau i'r cartref. Gall hyn gynnwys gwaith ataliol ar lefel isel fel rheiliau llaw a rheiliau gafael. Bydd gwaith mwy sylweddol yn cael ei asesu gan Therapydd Galwedigaethol a fydd yn sicrhau bod yr addasiad yn bodloni anghenion y person hŷn yn llawn.



Yn 2020/21, cyflwynwyd 984 o addasiadau i gartrefi er mwyn helpu pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol, ond hoffem wella ar hyn a chynyddu nifer yr addasiadau a ddarparwn.



**Mae'r Cyd-wasanaeth Offer (CWO)** yn wasanaeth integredig sy'n darparu gwasanaeth benthyca offer cymunedol effeithlon i drigolion Caerdydd a Bro Morgannwg. Maent yn darparu ac yn gosod offer arbenigol ar ôl derbyn atgyfeiriadau gan glinigwyr cymunedol ac ysbytai.

Mae'r gwasanaeth yn galluogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn brydlon drwy ddarparu'r offer sydd ei angen i hwyluso'r broses o ryddhau'r claf hwnnw. Mae'r gwasanaeth hefyd yn hwyluso'r gwaith o ddarparu cyfarpar i gefnogi lleihau gofal fel rhan o broses adolygu gofal.


Yn 2020/21 – cwblhaodd CWO **572** o ddanfoniadau ar yr un diwrnod gwaith neu'r diwrnod gwaith nesaf – cynnydd o **97%** ar

# Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref drwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau

## Canolfan Llesiant Byw'n Annibynnol Arfaethedig

Cardiff & Vale Joint Equipment Service
Gwasanaeth Offer ar y Cyd Caerdydd a'r Fro

Gyda thwf parhaus y Cyd-wasanaeth Offer, rydym yn bwriadu adeiladu ar lwyddiant y gwasanaethau a datblygu Canolfan Llesiant Byw'n Annibynnol.




Byddai'r cynnig yn golygu datblygu un cyfleuster integredig ar gyfer Cynghorau Caerdydd a'r Fro a'r Bwrdd Iechyd, i weithredu fel canolfan ar gyfer byw'n annibynnol.

Byddai'n cynnwys canolfan ddosbarthu ar gyfer offer ac yn cynnwys cyfleuster tŷ clyfar newydd ar gyfer hyfforddi staff y cyngor a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Byddai'r cyfleuster tŷ clyfar hefyd yn cael ei ddefnyddio i asesu unigolion i sicrhau bod offer yn briodol i'w hanghenion.

Byddai'r Ganolfan yn cynnwys cyfleuster cyhoeddus i alluogi unigolion i ddeall pa offer sydd ar gael i gynorthwyo gyda byw'n annibynnol ac i brynu datrysiadau offer ymarferol i fodloni eu hanghenion byw'n annibynnol.

Rhagwelir y byddai'r cyfleuster yn lletya timau amlddisgyblaethol i ddatblygu atebion ar gyfer y problemau lluosog a wynebir gan bobl hŷn sy'n ceisio byw'n annibynnol yn y gymuned.

**Byddwn yn gwella'r defnydd o dechnoleg, cymhorthion ac addasiadau i gefnogi annibyniaeth drwy:**

- Ddatblygu cynigion ar gyfer Canolfan Llesiant Byw'n Annibynnol, rhesymoli ein storfeydd offer ar y cyd presennol a datblygu cyfleuster sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n canolbwyntio ar atebion ymarferol i gefnogi byw'n annibynnol.
- Tynnu'r prawf modd o'r holl addasiadau anabl cymwys.
- ·Ehangu ailgylchu offer ac addasiadau.

# Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref drwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau

## Darparu cyngor a chymorth i helpu i symud

Mae'r canfyddiadau o ystod o ymchwil amrywiol yn dangos buddion tai addas i bobl hŷn wrth gefnogi annibyniaeth a gostwng yr angen am ofal preswyl.

### Tîm Atebion Ailgartrefu



Mae ein Tîm Atebion Ailgartrefu yn rhoi cyngor tai arbenigol i bobl hŷn i'w helpu i ddeall eu hopsiynau tai ac i'w cefnogi tuag at ddatrysiadau wedi'u teilwra.

Y nod fydd sicrhau bod cyngor a gwybodaeth o ansawdd uchel am atebion tai i bobl hŷn ar gael ar wefan y Cyngor, mewn Hybiau a thrwy sesiynau a digwyddiadau gwybodaeth.



Mae ein partneriaid Cymdeithasau Tai yn darparu Tai Gofal Ychwanegol a all helpu pobl i aros yn annibynnol ac osgoi gofal preswyl. Rydym am ymestyn hyn a dewisiadau tai arbenigol eraill sydd ar gael i bobl hŷn.

---

**Byddwn yn hyrwyddo'r symudiad i dai mwy priodol lle bydd hyn yn cefnogi annibyniaeth drwy:**

- Annog pobl i feddwl am eu hanghenion tai hirdymor cyn gynted â phosibl drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor effeithiol.
- Dod o hyd i ddatrysiadau tai wedi'u teilwra i helpu pobl i aros yn annibynnol.
- Adolygu ein defnydd o ofal ychwanegol / tai byw yn y gymuned, yn hytrach na chartrefi preswyl ar gyfer gofal seibiant a pharhaol.

# Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref drwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau

## Datblygu Llety Newydd

Mae'r Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig partner wedi ymrwymo i barhau i ddarparu tai fforddiadwy newydd yn benodol ar gyfer pobl hŷn - llety hygyrch/hyblyg sy'n caniatáu heneiddio mewn cymdogaethau cerddedadwy o fewn cyrraedd hawdd i wasanaethau a gweithgareddau lleol.

Mae tua **700** o unedau llety fforddiadwy i bobl hŷn wedi'u cynllunio dros y cyfnod **2020** i **2030** darparu cynlluniau byw cymunedol pwrpasol, hygyrch a chynaliadwy sy'n darparu 'cartref am oes' sy'n galluogi preswylydd i fyw'n annibynnol.



Prosiect Byw yn y Gymuned Arfaethedig Treganna / Glan-yr-afon



Byw yn y Gymuned Arfaethedig Butetown



Ailddatblygiad Arfaethedig Trem y Môr

**Byddwn yn sicrhau bod ein datblygiadau tai newydd yn cefnogi pobl i aros yn annibynnol drwy:**

- Adeiladu cartrefi wedi'u haddasu ac addasadwy 'gofal barod'.
- Adeiladu cynlluniau byw yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn sy'n gallu bodloni anghenion newidiol Caerdydd.

## Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel

### Darparu Gofal Cartref



Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda 54 o asiantaethau gofal cartref ledled Caerdydd i gefnogi tua 2,000 o bobl sydd angen cymorth ychwanegol i barhau i fyw'n annibynnol. Mae asiantaethau'n darparu tua 27,000 awr o ofal yr wythnos, gan ddarparu gwasanaeth hanfodol i'r bobl fwyaf agored i niwed yn y ddinas. Mae darparwyr gofal wedi gweithio drwy gydol y pandemig i ddarparu gofal o safon mewn lleoliadau cartref a phreswyl.

Mae'r problemau gyda'r farchnad ofal bresennol yn glir. Bu cynnydd yn y galw yn dilyn y pandemig ac mae hyn wedi datgelu gwendidau systemig yn y ddarpariaeth gofal cartref. Mae problemau hefyd o ran recriwtio a chadw staff a materion gyda chyfraddau cyflog.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr gofal a gomisiynir i ddeall y materion hyn yn well. Yn benodol, byddwn yn gweithio gyda'r asiantaethau gofal cartref i ddarparu gofal hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ddatblygu cytundeb partneriaeth dibynadwy gydag asiantaethau gofal, gan eu galluogi i addasu darpariaeth gofal mewn ymateb i anghenion gofal ac amcanion llesiant unigolyn.

**Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'n hasiantaethau gofal cartref a gomisiynwyd i ddarparu gofal hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy:**


- Gynyddu ein dealltwriaeth o'r materion y mae'r asiantaethau gofal cartref yn eu hwynebu a darparu cymorth.
- Sefydlu cytundeb Partneriaeth y Gellir Ymddiried Ynddo gyda'n darparwyr gofal fel y gallant addasu gofal unigolyn mewn modd priodol ac amserol.
- Bydd gan ein darparwyr gofal Gydlynwyr Gofal Lleol a fydd yn dod yn rhan o'n timau ardal amlasiantaethol.

**Byddwn yn sicrhau pontio di-dor o wasanaeth gofal cartref / ailalluogi'r cyngor i Ofal Cartref hirdymor.**

# Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel

## Gofal Preswyl

Cyn y pandemig roedd y defnydd o ofal preswyl a ariennir gan y cyngor yn lleihau tra bod gofal nyrsio yn cynyddu. Yn ystod y pandemig bu gostyngiad yn y ddau ohonynt. Wrth i ni ddod allan o'r pandemig, rhagwelir y bydd y galw am ddarpariaeth fwy arbenigol yn cynyddu. Hefyd wrth i ni hyrwyddo a chefnogi annibyniaeth, bydd yr angen am ofal preswyl cyffredinol yn gostwng.




### Lefel y Gofal Preswyl yng Nghaerdydd (Amcangyfrif)

| | Cartrefi heb nyrsio | Cartrefi gyda nyrsio | Lleoedd heb nyrsio | Lleoedd gyda nyrsio | Cyfanswm lleoedd |
|---|---|---|---|---|---|
| 2021 | 41 | 21 | 781 | 1,370 | 2,226 |

Mae'r Cyngor yn prynu llai na hanner y lleoedd hyn

Mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn mynd ati i geisio hysbysu, rheoli ac ail-lunio'r farchnad ofal yng nghyd-destun yr angen presennol ac yn y dyfodol. Mae gwaith ar y gweill i ddeall yr angen hwn yn well drwy ddatblygu Asesiad Anghenion y Boblogaeth ac Adroddiad Cynaliadwyedd y Farchnad Ranbarthol.

Mae cynigion yn y dyfodol yn debygol o weld y gwasanaeth yn gweithio gyda'r sector gofal preswyl i symud oddi wrth ddarpariaeth breswyl gyffredinol tuag at ofal mwy arbenigol ar ddementia, preswyl a nyrsio.

**Byddwn yn ceisio llywio, rheoli ac ail-lunio'r farchnad ofal drwy:**

- Ddeall gofynion gofal a chymorth yn y dyfodol yn sgil Adroddiad Cynaliadwyedd y Farchnad Ranbarthol (a ddisgwylir ym mis Mehefin 2022) / Asesiad Anghenion y Boblogaeth a chyfleu hyn i'r sector gofal.
- Gweithio gyda'r sector gofal i symud i ffwrdd o ofal preswyl cyffredinol tuag at ofal yn y cartref.
- Hyrwyddo datblygiad gofal dementia, preswyl a nyrsio ychwanegol o ansawdd uchel.

# Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel

## Cefnogi Llais a Rheolaeth wrth ddarparu gofal

Bydd gwrando ar ein dinasyddion a theilwra'r gofal a'r cymorth tuag at y canlyniadau a ddewiswyd ganddynt wrth wraidd ein holl wasanaethau. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gomisiynu gofal, gan sicrhau bod digon o hyblygrwydd i fodloni anghenion unigol.

## Taliadau Uniongyrchol

Taliadau Uniongyrchol yw un o'r dulliau sy'n tyfu gyflymaf o gyflawni canlyniadau pobl yng Nghymru, a'n nod yw sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gallu elwa arnynt.



Mae Taliadau Uniongyrchol yn galluogi pobl i drefnu gofal a gwasanaethau eu hunain, i gael mwy o ddewis a rheolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu cael, gan sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd fwy cyfleus a hyblyg.



Mae ein partner Canolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol yn cefnogi pobl drwy'r broses.

Fodd bynnag, er gwaethaf y cymorth sydd ar gael, gall ysgwyddo’r cyfrifoldeb am gyflogi gofalwr yn uniongyrchol fod yn bosibilrwydd brawychus i rai pobl hŷn. Byddwn yn archwilio ffyrdd eraill y gallwn gynorthwyo pobl hŷn i gymryd rheolaeth dros eu gofal eu hunain. Gall hyn gynnwys annog sefydlu micro-fentrau i gynnig mwy o ddewis i'n dinasyddion.

Mae **650** o bobl yng Nghaerdydd eisoes yn cyflogi eu Cynorthwy-ydd Personol eu hunain i fodloni'r anghenion gofal cymdeithasol hyn

**Byddwn yn cynyddu llais a rheolaeth dinasyddion wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth:**

- Cefnogi llais a rheolaeth unigol drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau llesiant.
- Adolygu sut rydym yn ymgynghori ac yn cyd-gynhyrchu gwasanaethau gyda phobl hŷn.
- Adolygu ein cefnogaeth ar gyfer taliadau uniongyrchol a chynyddu'r cyflenwad o gynorthwywyr personol sydd wedi'u hyfforddi'n dda.
- Archwilio'r ddarpariaeth ofal drwy ficro-fentrau lleol.
- Symud i ffwrdd o ymagwedd "gorchwyl a gorffen" at ofal i ganolbwyntio ar ganlyniadau llesiant.

## Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel

### Sut olwg sydd ar ofal da?

Gan ddefnyddio cyllid y Gronfa Gofal Integredig (CGI), mae ein tîm o weithwyr proffesiynol yn ymweld â chartrefi gofal yng Nghaerdydd i ddeall "sut beth yw gofal da" – gan nodi a hyrwyddo arfer gorau lleol.



Yn y cyfamser, rydym wedi comisiynu ymchwil i edrych ar draws y Deyrnas Gyfunol a'r byd i nodi arfer gorau o ran darpariaeth gofal cymdeithasol i'n dinasyddion sydd â'r anghenion mwyaf.



Bydd y gwaith hwn yn llywio ein gwaith o gomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol ac yn ein galluogi i ddatblygu trefniadau monitro ansawdd mwy effeithiol sy'n canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd rhagorol i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed.

**Byddwn yn gwella ansawdd y gofal a ddarperir drwy wasanaethau a gomisiynir drwy:**

- Ddatblygu barn glir am "sut beth yw da" mewn cartrefi preswyl a nyrsio dementia i lywio comisiynu yn y dyfodol.
- Sicrhau bod monitro ansawdd effeithiol ar waith sy'n canolbwyntio ar y gofal a ddarperir a barn yr unigolion, eu teuluoedd a'r rhwydwaith gofal.
- Cyd-gynhyrchu Fframwaith Ansawdd Rhanbarthol ar gyfer cartrefi gofal wedi'i ategu gan drefniadau sicrhau ansawdd lleol.
- Adolygu Sgoriau Ansawdd ar gyfer gofal cartref a gofal preswyl.
- Ail-drefnu'r broses Uwchgyfeirio Pryderon i gefnogi darparwyr i wella pan fydd pethau'n mynd o chwith ac i sicrhau gweithredu / ymyrraeth ar unwaith lle mae pryderon diogelu.

# Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel

## Gwerthfawrogi'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Mae gwerthfawrogi a datblygu'r gweithlu Gofal Cymdeithasol yn allweddol os yw gofal o ansawdd da i'w ddarparu. Er bod y problemau gyda'r gweithlu gofal yn un cenedlaethol, mae marchnad gyflogaeth Caerdydd yn cynnig heriau ychwanegol. Dangosodd adolygiad diweddar nodweddion arbennig y gweithlu yng Nghaerdydd.

### Trosiant Uchel

Mae gennym y gyfran uchaf o staff gofal cymdeithasol a ymunodd o fewn y 12 mis diwethaf (37%) a'r gyfran isaf ar gontractau parhaol (72%).

### Lefelau Cymhwyster Isel

Mae cyfran y rheolwyr a'r staff gofal sydd â'r cymwysterau gofynnol neu a argymhellir yn is yng Nghaerdydd nag mewn ardaloedd eraill:

- **73%** o reolwyr o'i gymharu ag **83%** ar gyfer Cymru
- **71%** o uwch weithwyr gofal o'i gymharu ag 82% ar gyfer Cymru
- 45% o weithwyr gofal o'i gymharu â 61% ar gyfer Cymru




Academi Gofalwyr Caerdydd
Cardiff Cares Academy

Mae Academi Gofalwyr Caerdydd yn recriwtio ac yn hyfforddi Gweithwyr Gofal newydd ar gyfer sector gofal cymdeithasol y ddinas. Maent yn darparu sesiynau addysgiadol am yr hyn y mae'r rôl yn ei olygu gan gynnwys hyfforddiant, gyda chymorth wedi'i deilwra yn cael ei ddarparu bob cam o'r ffordd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol yn ddiweddar i alluogi Awdurdodau Lleol i weithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn y sector gofal. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl.

**Byddwn yn gwerthfawrogi ac yn datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol drwy:**

- Ddatblygu Academi Gofal Caerdydd ymhellach i ddarparu hyfforddiant, mentora a chymorth i gyflogwyr.
- Rhoi cymorth rhagweithiol i helpu gweithwyr gofal i gofrestru.
- Gweithio mewn partneriaeth â darparwyr i dyfu'r gweithlu – gan gynnwys drwy ein Contractau Datblygu Gofal.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i weithredu’r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal yng Nghaerdydd.
- Cydweithio â'r holl randdeiliaid allweddol ar draws y rhanbarth fel rhan o Bartneriaeth Gweithlu Rhanbarthol Gofal Cymdeithasol.

## Cefnogi Gofalwyr

Rydym yn cydnabod y cyfraniad hollbwysig y mae gofalwyr anffurfiol neu ddi-dâl yn ei wneud i gymunedau a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Rydym hefyd yn deall y pwysau y gall gofalu am rywun annwyl eu hachosi, yn enwedig os yw'r gofalwr hefyd yn berson hŷn ei hun neu'n cyflawni ei rôl gofal wrth weithio'n llawn amser.



Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cydnabod, a bod pob cam yn cael ei gymryd i sicrhau ein bod yn cefnogi'r ansawdd bywyd uchaf i'r rhai sy'n darparu ac yn derbyn gofal. Byddwn yn adolygu'r cymorth i ofalwyr drwy ymgynghori'n llawn â chynrychiolwyr gofalwyr.

*Amcangyfrifir mai £8 biliwn yw'r gost i Gymru o ddisodli gofal anffurfiol neu ddi-dâl gyda gofal ffurfiol*

Mae Porth Gofalwyr Caerdydd a'r Fro yn darparu cymorth a chefnogaeth i ofalwyr anffurfiol.

Cynhaliwyd 10 o Baneli Arbenigol gofalwyr yn 2020/21 yn ymgynghori â gofalwyr ar amrywiaeth eang o faterion.

carerstrust South East Wales action·help·advice

**Byddwn yn cefnogi ac yn gwerthfawrogi gofalwyr anffurfiol drwy:**

- Adolygu ein gwasanaethau cynghori i ofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni anghenion presennol.
- Gwerthuso’r broses asesu gofalwyr presennol ac archwilio sut y gellir gwella'r defnydd o'r rhain.
- Cynnig cymorth Therapi Galwedigaethol i alluogi gofalwyr i gefnogi eu hanwyliaid yn ddiogel.
- Adolygu'r ystod o seibiant a ddarperir.
- Ymgynghori a chyd-gynhyrchu unrhyw newidiadau gyda gofalwyr.

## Sicrhau bod ein gwasanaethau'n bodloni anghenion y rhai mwyaf agored i niwed


### Cefnogi'r rhai sy'n byw gyda Dementia

Ein huchelgais i Gaerdydd yw bod yn Ddinas sy'n Deall Dementia a'n nod yw gweithio yn y ffordd orau i'r rhai sy'n byw gyda dementia.

Rydym am ddeall sut y gallwn gefnogi pobl â dementia orau i fyw yn y gymuned. Rydym am ymgorffori arfer sy'n seiliedig ar ymchwil yn ein dull gweithredu a defnyddio'r dysgu o'r ymchwil yma i ddylanwadu ar y ffordd yr ydym yn mynd ati i gomisiynu gwasanaethau ym maes gofal cymdeithasol. Rhoddir ystyriaeth i ddogfennau polisi cenedlaethol a lleol sy'n nodi sut i ddarparu gwell gwasanaethau dementia.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn (GIMBH),** partneriaeth ranbarthol, yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd i oedolion dros 65 oed. Mae'r tîm amlddisgyblaethol hwn yn rhan annatod o ddarparu gwasanaethau'n gyfannol.




Amcangyfrifir y bydd nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yng Nghaerdydd yn cynyddu **30.1%** erbyn 2030 a **41.1%** ar gyfer dementia difrifol

**Byddwn yn sicrhau ein bod yn cefnogi pobl â dementia i aros gartref lle bynnag y bo modd drwy:**

- Adolygu arfer gorau o bob cwr o'r byd i ddeall sut orau y gallwn gefnogi pobl â dementia i fyw yn y gymuned.
- Darparu hyfforddiant dementia i'r holl staff i'w galluogi i deilwra'r cymorth cywir i'r person a'i deulu yn eu cartref.
- Defnyddio'r holl dechnoleg ddiweddaraf i gefnogi gofal cleientiaid.

## Cadw Llais a Rheolaeth

Byddwn yn cymryd ymagwedd sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n rhoi'r unigolyn a'i anghenion wrth wraidd ei ofal a'i gymorth a chefnogi unigolion i sicrhau llesiant ym mhob rhan o'u bywydau.

Mae sicrhau bod llais y dinasyddion yn dal i gael ei glywed pan fydd eu galluedd meddyliol yn cael ei beryglu yn arbennig o bwysig.

**Deddfwriaeth Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid**

Caiff deddfwriaeth Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ei chyflwyno yn 2022. Mae'r ddeddfwriaeth newydd hon yn cefnogi hawliau'r rhai y mae amhariad ar eu capasiti.

Byddwn yn hyfforddi ein staff yn llawn i ddefnyddio'r ddeddfwriaeth hon mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a fydd yn allweddol i lwyddiant y dull gweithredu.

Mae **Porth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro** yn bwynt mynediad unigol i Oedolion sy'n chwilio am gymorth i'w helpu nhw i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi eu gofal a'u cymorth.

Mae gwasanaeth Eiriolaeth yn annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol, a'i nod yw helpu unigolion i gael y profiad gorau posibl o weithio gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol.




Mae cyd-destun newydd **Strategaeth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro** wedi'i gynhyrchu sy'n nodi targedau uchelgeisiol ar gyfer cydweithio a chyd-gynhyrchu ar draws pob maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Byddwn yn sicrhau bod ein Gwasanaethau Eiriolaeth yn cael eu hailgomisiynu yn unol â'i ymrwymiadau.

**Byddwn yn sicrhau bod pobl hŷn, waeth pa mor agored i niwed, yn cadw llais o ran eu gofal eu hunain drwy:**

- Sicrhau bod ein gweithwyr cymdeithasol yn cymryd ymagwedd at alluedd meddyliol sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn sicrhau bod pobl hŷn, cyn belled ag y bo modd, yn cadw llais a rheolaeth.
- Prif ffrydio'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd o fewn gwasanaethau pobl hŷn.
- Ailgomisiynu ein Gwasanaethau Eiriolaeth yn unol â'r ymrwymiadau a nodir yn Strategaeth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro.

## Adolygu a moderneiddio ein gwasanaethau

Er mwyn cyflawni nodau'r Strategaeth hon bydd angen moderneiddio gwasanaethau ac ymgorffori dull sy'n seiliedig ar gryfderau ac annibyniaeth yn y gwasanaeth, gan sicrhau bod hyfforddiant a monitro ansawdd yn cefnogi'r dull hwn yn llawn.



Rydym am sicrhau bod ystod eang o gymorth ar gael i gefnogi'r holl bobl hŷn i aros yn annibynnol gartref a bod ein holl staff wedi'u hyfforddi'n llawn i ddod o hyd i'r cymorth cywir i berson hŷn ar yr adeg gywir.

Mae angen i ni hefyd sicrhau bod gan ein gweithwyr proffesiynol yr amser i gefnogi'r bobl hŷn fwyaf agored i niwed, gan ddeall eu barn yn llawn a gweithio gyda nhw i fodloni eu hanghenion gofal a chymorth.



**Byddwn yn adolygu ac yn moderneiddio ein gwasanaethau i fod yn seiliedig ar gryfderau ac annibyniaeth sy'n canolbwyntio ar:**

- Ailstrwythuro ein gwasanaethau o amgylch ein cwsmeriaid, mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi ein gweithwyr proffesiynol ac sy'n darparu gwaith ardal leol amlddisgyblaethol.
- Adolygu a symleiddio gwasanaethau – mabwysiadu dull asesydd dibynadwy, gan ddileu dyblygu a biwrocratiaeth gostus, gan sicrhau bod gan ein gweithwyr proffesiynol yr amser i gefnogi'r bobl hŷn fwyaf agored i niwed yn effeithiol.
- Adolygu hyfforddiant i sicrhau bod yr holl staff yn gallu gweithio mewn modd sy’n seiliedig ar gryfderau ac ar asesydd y gellid ymddiried ynddo, gan fabwysiadu golwg gyfannol, “rhagnodi” technoleg, cymhorthion, addasiadau, yn ogystal â gofal.
- Sicrhau bod ein fframwaith sicrwydd ansawdd yn darparu gwaith cymdeithasol a gofal o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar gryfderau.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

### Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldeb Iechyd

Yng Nghaerdydd, gellid dod o hyd i gymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig Cymru o fewn ychydig filltiroedd i'w gilydd. Gall dynion sy'n byw yn y cymunedau lleiaf difreintiedig ar gyfartaledd ddisgwyl byw am 11 mlynedd yn hirach na'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig; mae'r bwlch yn 9 mlynedd i fenywod. Fodd bynnag, wrth edrych ar ddisgwyliad oes iach, mae'r gwahaniaeth yn fwy na dyblu i 24 mlynedd i ddynion a 22 mlynedd i fenywod.

Effeithia amddifadedd yn andwyol ar ffactorau risg a marwolaethau ar gyfer llawer o gyflyrau cyffredin hefyd, gyda 'bwlch' anghydraddoldeb sylweddol rhwng y rhai yn y cymunedau mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig. Yng Nghaerdydd, mae cyfraddau marwolaethau oherwydd iechyd gwael yn uwch yn ne'r ddinas. **Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr Iechyd y Cyhoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn y ddinas.**

### Dosbarth Cadwch i Symud

Mae data torri clun ar gyfer ardal Grangetown yn dangos bod gan yr ardal hon un o'r cyfraddau achosion uchaf yng Nghymru gyfan, gyda chwympiadau yn ffactor mawr. Mae Hybiau Caerdydd wedi gweithio'n agos gyda Thîm Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro gyda'r nod o leihau cwympiadau yn yr ardal.




Yn dilyn gwaith gan Dîm Iechyd y Cyhoedd yn edrych ar rwystrau i gymryd rhan mewn dosbarthiadau ymarfer corff a Chlinigau Sefyll yn Gadarn mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig, treial 5 wythnos wedi'i dargedu o sesiynau LIFT (Hyfforddiant Swyddogaethol Effaith Isel - dosbarthiadau ymarferion ar gyfer pobl dros 50 oed, yn eistedd neu'n sefyll) yn Hyb Grangetown

Roedd y sesiynau'n cael eu hyrwyddo'n ofalus fel rhai a oedd yn cael eu cyflwyno gan aelod o staff benywaidd hyfforddedig o'r Hyb, 'menywod yn unig', gyda phwyslais ar weithgarwch ysgafn a chynhyrchwyd gwybodaeth yn Gymraeg, Saesneg, Arabeg, Somali, Bengali, Urdu a Gujarati. Dewiswyd amseroedd a diwrnodau sesiynau i barchu sensitifrwydd diwylliannol. Mae'r sesiynau LIFT wedi'u targedu bellach yn nodwedd parhaol yn rhaglen ddigwyddiadau Hyb Grangetown. Mae ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i ymweliad rheolaidd gan ffisiotherapydd 'Clinig Sefyll yn Gadarn'.


### Cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg

Rydym wedi creu cyfres o gamau gweithredu i sicrhau ein bod yn cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys gwella ein gwaith o gasglu data er mwyn cofnodi a rhannu gwybodaeth am y Gymraeg yn gywir o ran y gweithlu a defnyddwyr gwasanaethau. Cytunwyd yn ddiweddar hefyd y bydd pob swydd yn cynnwys sgiliau iaith Gymraeg fel gofyniad dymunol. Byddwn hefyd yn nodi meysydd gwasanaeth a allai elwa fwyaf o ragor o hyfforddiant ac y byddent yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg ac yn gwella'r broses ar gyfer dyrannu staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Rydym wedi dadansoddi'r wybodaeth ddemograffig ar gyfer unigolion **65+** a gwblhaodd asesiad llesiant rhwng Mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2021.

Mae **65%** o gleientiaid yn eu **80+**


Mae **22%** o gleientiaid yn eu **90+**




Mae **63%** yn berchen ar eu cartref



Mae'r nifer uchaf o gleientiaid yn byw yn Llanisien, Trelái, yr Eglwys Newydd a Rhiwbeina.




Yn 2020/21 ni chofnodwyd ethnigrwydd ar gyfer bron i draean o'r holl gleientiaid.

Pan gofnodwyd ethnigrwydd - roedd 95% o gleientiaid yn wyn, mae hyn yn cymharu â 94% o boblogaeth 65+ Caerdydd (yn ôl amcangyfrif poblogaeth 2018).



Byddwn yn gwella ein harferion cofnodi ethnigrwydd ac yn ceisio deall yn well effaith ein gwasanaethau ar wahanol ddiwylliannau.

Byddwn yn gweithio gydag Iechyd y Cyhoedd a phartneriaid eraill i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd ar draws y ddinas.

## Y Camau Nesaf

Mae'r ymrwymiadau "Byddwn yn" yn y strategaeth hon yn gosod y cyfeiriad ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

## Cydweithio

Ni all y Cyngor ar ei ben ei hun gyflawni nodau'r strategaeth hon. Mae gweithio mewn partneriaeth effeithiol, a lle bo'n briodol mwy o integreiddio, yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir cyrraedd y canlyniadau a'r atebion gorau. Bydd angen datblygu llawer o feysydd y Strategaeth ymhellach, bydd y datblygiad hwn yn cael ei wneud ar y cyd â'n partneriaid a'n dinasyddion.

## Ffynonellau ariannu

Mae cyflawni'r Strategaeth Heneiddio'n Dda yn dibynnu ar nifer o ffynonellau ariannu. Nid yw rhai cynigion wedi'u costio'n llawn eto a bydd angen ystyried datblygu achosion busnes cadarn cyn eu gweithredu, gall hyn gynnwys treialu rhai datrysiadau cyn eu gweithredu'n derfynol.

## Trefniadau llywodraethiant, monitro a gwerthuso

Cam nesaf allweddol yw datblygu cynlluniau gweithredu manwl a fydd yn destun monitro ac adolygu rheolaidd. Bydd mesurau canlyniadau clir a dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu datblygu i ganiatáu gwerthuso'r gwaith a wneir.

Bydd y Strategaeth yn rhan annatod o drefniadau llywodraethiant a monitro presennol y Cyngor, a bydd yn llywio amcanion cynllun corfforaethol a chynllun cyflawni'r gyfarwyddiaeth yn y dyfodol. Gwneir adroddiadau cynnydd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, naill ai fel rhan o'r gwaith rheoli rhaglenni presennol, neu ar wahân yn ôl y gofyn, gan sicrhau bod y cyfeiriad yn cyd-fynd â chyfeiriad ein partneriaid allweddol.